Llŷn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

Rhif 19 • 2025
www.ahne-llyn-aonb.cymru

# Llygad Llŷn

Newyddlen AHNE Llŷn

am ddim

*Yn y rhifyn hwn*

Tirweddau Cynaliadwy

Ffermio Bro

Tirlun Byw

Pecyn Addysg

Lle yn Llŷn









# Croeso

**Dyma ni efo rhifyn 19 o Llygad Llŷn – newyddlen flynyddol yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Fel yr arfer mae'r newyddlen yn cynnwys gwybodaeth am yr ardal, prosiectau, y gronfa grant a rhai datblygiadau eraill perthnasol i ardal Benrhyn Llŷn.**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r Uned AHNE wedi bod yn gweithio ar gwblhau prosiectau Tirweddau Cynliadwy Lleoedd Cynaliadwy sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Roedd ein prosiectau ni yma yn Llŷn yn cynnwys adnewyddu'r Ganolfan yn Llithfaen, gwella tiroedd comin, gwaredu rhywogaethau estron a phlannu coed brodorol. Ceir mwy o wybodaeth am y prosiectau yn y rhifyn yma o'r Llygaid.

Mae'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy eto wedi cefnogi nifer o brosiectau amgylcheddol diddorol yn ardal Llŷn. Cewch wybod mwy am y prosiectau yma ac am y Gronfa ei hun a'r broses o ymgeisio am y grant.

Yn y rhifyn hwn hefyd cewch wybodaeth am brosiect Tirlun Byw sy'n cael ei ariannu yn rhannol gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Roedd y prosiect yn cynnwys digwyddiadau hyfforddi sgiliau, sgyrsiau, teithiau cerdded a hefyd gwaith gyda'r gwirfoddolwyr – Ffrindiau yr AHNE. Mae'r criw yma wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r ardal trwy wella llwybrau, glanhau traethau ac adfer cynefinoedd pwysig.

Cofiwch ein bod yn awyddus i glywed eich barn am Llygad Llŷn ac am waith yr Uned AHNE. Hefyd hoffem glywed eich syniadau am brosiectau newydd fyddai o les i'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol neu bethau yr ydych yn meddwl sydd angen sylw. Cysylltwch ar bob cyfri ar e-bost, trwy y wefan, ar y ffôn neu hyd yn oed trwy lythyr!

I gloi – mae'r Uned AHNE yn ddiolchgar am yr holl gefnogaeth a dderbynnir gan Gyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.

## MANYLION CYSWLLT

AHNE Llŷn
Adran Amgylchedd
Swyddfa Cyngor Gwynedd
Ffordd y Cob
Pwllheli
Gwynedd LL53 5AA

**Ffôn** 01758 704 155 | 01758 704 194

**E-bost** ahne@gwynedd.llyw.cymru

**Gwefan** www.ahne-llyn-aonb.cymru

Dilynwch ni ar Instagram! **@ahnellynaonb**

# Cynnwys

**Eitemau**

Croeso/Cynnwys .................................. 2

Tirweddau Cynaliadwy .......................... 3

Tirweddau Cynaliadwy .......................... 4

Tirweddau Cynaliadwy/Ffermio Bro ....... 5

Tirlun byw ...................................... 6-12

Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy .............. 13

Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy .............. 14

Pecyn addysg ...................................... 15

Lle yn Llŷn ......................................... 16

**CYHOEDDWYD GAN:** Uned AHNE Llŷn

**LLUN CLAWR:**
Mynydd Rhiw gan Gareth Jenkins

**ARGRAFFWYD GAN:**
Gwasg Carreg Gwalch, Llwyndyrys a Llanrwst

**CEFNOGWYD GAN:**

Cyngor Gwynedd Council

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

## TÎM AHNE LLŶN – mae pedwar aelod o staff yn gweithio yn y gwasanaeth:

**Swyddog AHNE Llŷn**
### Bleddyn Prys Jones
Mae Swyddog AHNE Llŷn yn arwain gwaith Cyngor Gwynedd ar faterion craidd yr AHNE a delio gyda materion enedlaethol.

**Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn**
### Morus Llwyd Dafydd
Y Swyddog Prosiectau sy'n arwain ar brosiectau yr Uned AHNE, gweinyddu'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy a hyrwyddo'r AHNE.

**Warden Cefn Gwlad AHNE**
### Kevin Roberts
Gyda chymorth ariannol gan Llywodraeth Cymru mae'r Uned wedi penodi Warden Cefn Gwlad. Bydd y warden yn arwain ar brosiectau mynediad a natur yn yr AHNE.

**Swyddog Prosiect Tirlun Byw**
### Elin Wyn Hughes
Mae Elin yn gweithio ar brosiectau natur, gwella mynediad a gwella nodweddion hanesyddol yn yr AHNE. Hefyd mae hi yn gyfrifol am drefnu hyfforddiant sgiliau gwledig a rhaglen weithgareddau.

# Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy



**O dan gynllun Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy mae Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol Cymru, yn ogystal â'r Parciau Cenedlaethol, wedi derbyn arian gan Lywodraeth Cymru tuag at brosiectau amgylcheddol. Mae'r grant yn cael ei anelu at brosiectau twristiaeth cynaliadwy, adfer natur, cefnogi cymunedau a dad-garboneiddio. Roedd y rhaglen grant yma yn rhedeg am dair blynedd, yma ceir gwybodaeth am y prosiectau y buom yn gweithio arnynt yn 2024-25:**

## Y Ganolfan, Llithfaen



Bu raid cau'r Ganolfan yn Llithfaen yn ystod y cyfnod clo a datblygodd problem efo pydredd sych. Roedd yna broblemau eraill efo'r adeilad hefyd yn cynnwys y to, ffenestri a safon y gegin a'r toiledau. Oherwydd pwysigrwydd y Ganolfan fel adeilad cyhoeddus ym mhentref Llithfaen cafodd ei ddewis fel un o brosiectau cyfalaf yr AHNE.

Roedd adnewyddu ac uwchraddio'r Ganolfan yn brosiect eithaf mawr. Yn ffodus llwyddwyd i ddenu cyfraniad ariannol sylweddol at y prosiect o gronfa Ffyniant Bro, Llywodraeth y DU i'w ychwanegu at arian Llywodraeth Cymru. Penodwyd cwmni D. G. Jones Cyf, Bontnewydd i wneud y gwaith gyda cwmni Wakemans, Caernarfon yn goruchwylio. Braf yw adrodd fod y gwaith bellach wedi ei gwblhau a chafwyd noson i ail agor y Ganolfan yn swyddogol ddechrau Tachwedd 2024 gyda Mabon ap Gwynfor a phlant lleol yn cymryd rhan.



## Tiroedd Comin

Roedd hwn yn brosiect tair blynedd gan ganolbwyntio ar dri tir comin allweddol yn Llŷn sef Rhos Botwnnog, Foel Gron Mynytho a Horeb/Mynytho.

Yn Rhos Botwnnog buom yn cydweithio gyda'r ffermwyr lleol i wella cyflwr y comin ac ail-gyflwyno pori. Roedd y safle wedi tyfu yn flêr a drain a coed gwiail wedi ymledu. Er mwyn gwneud y safle yn addas ar gyfer pori buom yn gweithio gyda Ymgynghoriaeth Gwynedd gan wneud defnydd o'r peiriannau diweddara i glirio y tyfiant. Mae'r tir bellach yn addas ar gyfer pori gwartheg – a pori ydi'r ateb hirdymor ar gyfer cynnal a chadw cynefin o'r math yma.

Yn Foel Gron roedd y prosiect yn cynnwys gwaith i adfer wal gerrig sych oedd y ffurfio terfyn y tir comin. Roedd rhannau o'r wal hanesyddol wedi dymchwel gan gulhau yr hawl tramwy gerllaw. Yn ogystal â chreu terfyn mae waliau cerrig fel hyn yn cynnig lloches i greaduriaid bychain, a hefyd yn darparu rhwydwaith o goridorau diogel iddyn nhw grwydro o un lle i'r llall.

Ar gomin Horeb Mynytho buom yn gwneud gwelliannau o amgylch Ffynnon Fyw – gan ddisodli y ffens flêr oedd yno a gosod rheiliau newydd a chlirio llystyfiant ar y safle. Fe wnaethom hefyd wneud gwelliannau pellach i'r llwybr cyhoeddus trwy'r safle. Roedd y llwybr hwn yn aml yn wlyb tu hwnt ac roedd llystyfiant wedi ei fygu. Mae'r llwybr nawr yn agored i'w gerdded a'r gwaith wedi derbyn canmoliaeth gan y gymuned leol gan ei fod yn lwybr braf iawn i'w gerdded.

# Tirweddau Cynaliadwy
## Lleoedd Cynaliadwy



Maes Parcio Chwarel Llanbedrog

Lleolir y maes parcio hwn ar safle hen chwarel ger Mynydd Tir y Cwmwd, Llanbedrog gyda lôn eithaf cul yn arwain ato. Mae traeth Castellmarch gerllaw yn fendigedig gyda golygfeydd tuag at Meirionydd a Harlech. Roedd y safle wedi mynd i gyflwr gwael ac yn edrych yn flêr yn bennaf oherwydd gor-dyfiant a sbwriel. Gwnaed cyfres o welliannau i'r maes parcio oedd yn cynnwys gwella cyflwr yr wyneb, symud cerrig mawrion, torri gor-dyfiant, clirio sbwriel a gosod meinciau picnic.



## Plannu coed cynhenid

Un o brosiectau cyfalaf allweddol gan yr Uned AHNE yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oedd plannu coed cynhenid. Mae plannu coed o'r math yma yn cynnig buddion sylweddol i'r amgylchedd yn cynnwys:

- Creu cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt
- Ymsgugno carbon o'r amgylchedd
- Puro aer a dŵr
- Darparu adnodd cynaliadwy i'r dyfodol

Roedd gwaith ymchwil ar safleoedd addas wedi ei wneud yn flaenorol ac felly yn ystod Gaeaf 2024/5 symudwyd ymlaen i blannu cyfanswm sylweddol o goed – tua 5,000 i gyd. Roedd y prif safleoedd plannu yn Dinas, Edern, Plas yn Rhiw a Llanbedrog. Er mwyn gwarchod y coed defnyddiwyd tiwbiau a matiau sydd yn pydru – felly ni fydd rhaid eu casglu. Ein partneriaid ar y prosiect yma oedd yr Adran Briffyrdd, Ysgol Botwnnog, tirfeddianwyr lleol a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Cysylltwch a ni os oes gennych diddordeb creu coedlan eich hunain!





## Rhywogaethau ymledol estron

Rydym yn awyddus i adfer natur yn yr AHNE ac mae planhigion estron yn amharu ar rywogaethau lleol. Roedd hwn yn brosiect dwy flynedd i geisio adnabod a diffinio lleoliadau ac ardaloedd lle mae'r rhywogaethau estron yn broblem ac yna symud ymlaen i'w trin. Fel rhan o'r prosiect gwnaed gwaith sylweddol o waredu jac y neidiwr (himalayam balsam), canglwm siapaneaidd (japaneese knotweed) a rhododendron yn ystod 2024-25.

## Prosiectau ar y Cyd

Mae gan pob Tirwedd Dynodedig eu prosiectau eu hunain ond yn ychwanegol i hynny mae nifer o brosiectau ar y cyd gyda ardaloedd eraill. Yn ystod 2024-25 bu AHNE Llŷn yn rhan o'r ddau brosiect canlynol:



### Terfynau Traddodiadol –

prosiect ar y cyd gyda ardaloedd dynodedig eraill gogledd Cymru er mwyn cynnal ac adfer terfynau traddodiadol – waliau cerrig, cloddiau a gwrychoedd. Yn ogystal â bod yn nodweddion diddorol ar y tirlun mae'r terfynau hyn yn gynefinoedd bywyd gwyllt pwysig. Yn ystod 2024-25 roedd y gwaith yn Llŷn yn canolbwyntio ar ardal Llanaelhaearn.

### Pecyn Addysg Tirlun –

prosiect wedi ei gydgordio gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro ar ran y tirweddau yng Nghymru i greu pecyn addysg amgylcheddol sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm addysg newydd. Mae erthygl penodol ar y prosiect Tirlun yn y newyddlen.



# Ffermio Bro



Mae Tirweddau Dynodedig Cymru – sef y Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) yn fannau arbennig o ran golygfeydd, natur, diwylliant a treftadaeth. Mae'r Tirweddau wedi cydweithio hefo Llywodraeth Cymru i ddatblygu Ffermio Bro: Ffermio mewn Tirweddau Dynodedig, rhaglen arloesol i gynorthwyo ffermwyr i warchod natur a'r amgylchedd – tra yn cefnogi busnesau a chymunedau gwledig.

O dan y cynllun Ffermio Bro mae pob Parc ac AHNE wedi derbyn cronfa ariannol a gall ffermwyr wneud cais yn uniongyrchol i'r awdurdod perthnasol. Mae Ffermio Bro yn cefnogi gweithgareddau sydd yn cefnogi natur a bioamrywiaeth, gall hyn gynnwys mesurau fel creu/adfer waliau cerrig a gwrychoedd neu dulliau naturiol o reoli llifogydd ayb. Gall staff helpu i ddatblygu cynigion a gwneud ceisiadau.

Mae Ffermio Bro yn wahanol i gynlluniau tebyg yn y gorffennol oherwydd mai dim ond yn y Tirweddau Dynodedig y mae yn weithredol ac fod pwyslais ar gydweithio. Anelir i ariannu gweithgareddau ar draws amryw o ffermydd er cael ardrawiad ehangach ar y tirlun. Nid yw hynny o reidrwydd yn golygu gweithio gyda ffermydd cysylltiol ond yn hytrach fod nod a gweithredu tebyg. Bydd Cynghorwyr yn gweithio hefo ffermwyr ac yn trefnu gweithdai er mwyn datblygu prosiectau cydweithredol.

Mae Ffermio Bro yn gynllun sy'n paratoi ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Ni fydd cymryd rhan yn Ffermio Bro yn amharu ar ran ffermwyr i fod yn rhan o'r CFfC a bydd unrhyw gynefin sydd wedi ei greu fel rhan o Ffermio Bro yn cyfri tuag at ofynion cynefin cyffredinol. Bydd cyfraddau grant Ffermio Bro yn debyg i gynlluniau eraill Llywodraeth Cymru ond gellir hefyd ariannu prosiectau arbennig ar raddfa uwch. Os ydych yn ffermio yn ardal AHNE Llŷn a hefo diddordeb mewn ymgeisio neu eisiau mwy o wybodaeth cysylltwch â ni.

# Tirlun Byw

**Mae Tirlun Byw yn brosiect sydd yn cael ei ariannu ar y cyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Gwynedd. Dyma i chi flas o'r hyn sydd wedi bod yn digwydd yn yr ardal dros y flwyddyn diwethaf fel rhan o'r prosiect o dan arweiniad Elin Wyn Hughes, Swyddog Digwyddiadau'r AHNE.**

## Datblygu Cynefinoedd

Un elfen o brosiect Tirlun Byw yw gwella a datblygu cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt. Bu Llifon Jones yn plannu coed a gwrychoedd mewn safleoedd cyhoeddus – yn cynnwys Ysgol Tudweiliog, Canolfan Fenter Congl Meinciau a maes parcio Neuadd Sarn. Dyma waith allweddol i ddatblygu coridorau i fywyd gwyllt ffynnu.





## Hyfforddiant Sgiliau Gwledig

Gyda Dilwyn Williams wrth y llyw, cynhaliwyd sesiynau hyfforddiant codi waliau cerrig sychion ar Fynydd Rhiw. Mae'r waliau cerrig yn nodweddion hanesyddol pwysig yn Llŷn. Maent hefyd yn gynefinoedd pwysig i bob math o fywyd gwyllt. Byddwn yn cynnal y sesiynau eto eleni. Maent yn rhad ac am ddim a



Cysylltwch gyda ni am fwy o wybodaeth ac i gadw lle: ahne@gwynedd.llyw.cymru



## Hyfforddiant Codi Waliau

### Pam Ymuno?

- Cyfle gwych i ddysgu sgiliau newydd – yn rhad ac am ddim!
- Cewch gyfarfod pobl newydd.
- Allan yn yr awyr iach – gallwch fwynhau diwrnod hwyliog a difyr.
- Byddwch yn cynorthwyo i warchod tirlun arbennig yr ardal.
- Byddwch hefyd yn cynorthwyo i gynnal cynefinoedd pwysig i fywyd gwyllt.

Dyma'r dyddiadau:

**Dydd Gwener, Awst 22ain 2025**
**Dydd Gwener, Awst 29ain 2025**









Am fwy o wybodaeth ac i gadw lle cysylltwch gyda ni:
**ahne@gwynedd.llyw.cymru**



## Capel Newydd Nanhoron

Dros y blynyddoedd, rydym wedi bod yn cynnal gwelliannau ar safle Capel Newydd Nanhoron. Dyma safle hanesyddol pwysig – wedi ei restru gan Cadw (Gradd I) ac yn dyddio yn ôl i ddiwedd y ddeunawfed ganrif.

Mewn cydweithrediad ag ymddiriedolwyr y capel, cynhaliwyd Diwrnod Agored ar y safle yng nghwmni'r hanesydd John Dilwyn Williams. Bu'n cryn lwyddiant, gyda nifer yn galw heibio a chlywed mwy am yr hanes diddorol.





## Crwydro yn Aberdaron



Cynhaliwyd taith gerdded yn Aberdaron i siaradwyr Cymraeg newydd mewn cydweithrediad â'r ganolfan Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin. Gan gychwyn yn Eglwys Hywyn Sant, aethpwyd ymlaen am Ffynnon Saint a chlywed hanesion am Dic Aberdaron ac Ann Griffiths (1734-1821). Dyma'r enwog Feddyges Bryn Canaid a arferai ddefnyddio amrywiol blanhigion a dŵr o wahanol ffynhonnau'r ardal ar gyfer ei meddyginiaethau.

Mae'r ardal hon yn llawn hanes ac roedd llawer o'r daith yn troedio hen lwybrau'r pererinion gynt ar eu taith ysbrydol i Enlli. Aethpwyd ymlaen ar y Llwybr Arfordirol at fwthyn Tŷ Tan yr Allt – y bwthyn mae'n debyg y mae'r bardd Cynan yn cyfeirio ato yn ei gerdd enwog 'Aberdaron'. Dychwelwyd i'r pentref ar hyd y traeth.



# Taith Natur Plas yn Rhiw

Dan arweiniad Cynan Jones **(www.madarch.cymru)** cafwyd taith natur ym Mhlas yn Rhiw. Mae crwydro'r coedwigoedd hyn yn werth





chweil ar unrhyw adeg o'r flwyddyn ac yn yr hydref mae cyfle i weld bob math o amrywiaeth o fadarch a ffwng. Cawsom gyfle i weld amrywiaeth o fywyd gwyllt a thrafod materion sydd yn effeithio ar yr amgylchedd a'r hinsawdd o'n cwmpas. Diolch i Cynan ac i bawb a ymunodd – er gwaetha'r glaw!



## Casglu Sbwriel



Cafwyd prosiect llwyddiannus ar y cyd rhwng AHNE Llŷn, Cyngor Cymuned Botwnnog, Canolfan Fenter Congol Meinciau a Cadwch Gymru'n Daclus. Dyma enghraifft dda o grwpiau yn cydweithio gyda'i gilydd er budd yr amgylchedd. Mae Canolfan Fenter Congol Meinciau yn un o hybiau casglu sbwriel Cadwch Gymru'n Daclus – sy'n golygu fod modd benthyca offer casglu sbwriel yno drwy drefniant. Daeth pawb at ei gilydd a chasglu sbwriel ym mhentrefi Sarn, Botwnnog a Bryncroes gan wneud gwahaniaeth sylweddol.

## Wythnos Awyr Dywyll Cymru 2025

Cynhaliwyd Wythnos Awyr Dywyll Cymru yn ystod mis Chwefror ac fel rhan o'r dathliadau, cynhaliwyd llawer o weithgareddau yn genedlaethol. Yma yn Llŷn, cafwyd noson yng nghwmni Dani Robertson yn Oriel Plas Glyn y Weddw. Mae Dani yn awdures ac yn Swyddog Awyr Dywyll i Prosiect Nos sef partneriaeth ar y cyd rhwng Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Thirweddau Cenedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, Ynys Môn a Phenrhyn Llŷn. Bu Dani yn sôn am ei gwaith ac yn codi ymwybyddiaeth am ein hawyr dywyll arbennig a pha mor bwysig ydyw ei warchod.



Cafwyd gweithdai astro-ffotograffiaeth hefyd yng nghwmni Gareth Môn Jones yng Nghaernarfon a Hanna Baguley ym Mhlas Carmel, Aberdaron. Cafwyd tywydd gwerth chweil a gwelwyd llawer o ryfeddodau uwchben – yn cynnwys Llewyrch yr Arth (neu'r Aurora Borealis). Diolch i'r ddau am rannu eu profiadau a'u harbenigedd gyda ni.

Bydd Wythnos Awyr Dywyll Cymru 2026 yn cael ei chynnal rhwng Chwefror 13eg a 22ain.

# Ffrindiau'r AHNE



Bu ein criw gweithgar o wirfoddolwyr yn brysur dros y flwyddyn yn cynnal pob math o welliannau. Mae Ffrindiau'r AHNE yn grŵp sydd wedi ei sefydlu ers sawl blwyddyn ac yn cyfarfod yn rheolaidd. Dros y misoedd diwethaf buont yn gwaredu planhigyn estron Jac y Neidiwr (neu'r *Himalayan Balsam*) ar y traeth yn Nhrefor. Buont hefyd yn casglu sbwriel ar draeth Porth Neigwl, barbio nifer o lwybrau cyhoeddus a gwella'r ardd wyllt yn Ysgol Foel Gron Mynytho.

Drwy'r prosiect Tirlun Byw, roedd nawdd ar gyfer ariannu hyfforddiant i'r criw a bu sawl un yng Ngholeg Glynllifon yn ennill cymwysterau yn y maes cadwraeth a rheoli cefn gwlad.

Mae gwaith y gwirfoddolwyr yn werthfawr iawn ac maent yn gwneud gwelliannau sylweddol yn yr ardal. Rydym yn ddiolchgar iawn iddynt am eu gwaith caled. Os hoffech ymuno gyda'r grŵp mae croeso i aelodau newydd. Cewch gyfle i gyfarfod pobl newydd mewn awyrgylch hwyliog, dysgu sgiliau newydd ac ennill cymwysterau.

Gyrrwch e-bost at
**ahne@gwynedd.llyw.cymru**





# Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE Llŷn

Mae 5 Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Cymru yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru yn flynyddol ar gyfer cefnogi prosiectau amgylcheddol a chynaliadwy yn yr AHNE. Mae'r Gronfa yn cael ei gweinyddu yn lleol yma yn Llŷn gan yr Uned AHNE.

Rhoddir pwyslais ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r math o brosiectau a gefnogir yw rhai sy'n:

- **Cynnal neu wella y tirlun a nodweddion lleol**
- **Cynnal neu adfer byd natur**
- **Gwella a-adnoddau cymunedol allweddol**
- **Atgyfnerthu diwylliant a iaith**


Gall y Gronfa gefnogi prosiectau gan asiantaethau, grwpiau gwirfoddol, cynghorau cymuned a mudiadau eraill sydd gan gyfansoddiad a chyfri banc. Hefyd gall unigolion a chwmnïau preifat wneud cais – ar yr amod y gellir dangos y byddai eu prosiectau o fudd i'r ardal a'r gymuned.

Asesir ceisiadau yn ôl cyfres o feini prawf amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. Mae mwy o fanylion am y Gronfa a'r broses ymgeisio ar wefan yr AHNE neu gallwch gysylltu gyda ni ar e-bost. Dyma flas ar ran prosiectau a gefnogwyd gan y Gronfa yn ystod 2024-25:

## Menter y Tŵr

Sefydlwyd Menter Y Tŵr er mwyn ail-bwrpasu gwesty hanesyddol sydd wedi'i leoli reit yng nghanol Stryd Fawr Pwllheli i fod yn ganolbwynt cymunedol bywiog. Wedi'i ysgogi gan yr awydd i warchod treftadaeth, diwallu anghenion lleol, a sbarduno twf economaidd, prif nod y prosiect ydi trawsnewid yr adeilad pwysig yn ofod aml swyddogaeth. Bydd yn cynnig amwynderau megis tafarn gymunedol, gwesty, caffi a bwyty, gofod cymunedol ac ardal datblygu busnes. Trwy ymgysylltu cymunedol, partneriaethau, ac ymrwymiad i gynaliadwyedd, y gobaith yw bydd y prosiect yn grymuso trigolion ac adfywio Stryd Fawr Pwllheli. Fe aeth nawdd y Gronfa tuag at atgyweirio ac ailaddurno'r ffenestri sash presennol ac mae'n hollbwysig i'r prosiect. Trwy atgyweirio ac ailaddurno'r ffenestri gwreiddiol, gallwn wella effeithlonrwydd ynni yn yr adeilad, gan arwain at lai o ddefnydd o ynni a llai o allyriadau carbon. Mae'r Fenter bellach wedi derbyn sawl grant yn ogystal â chefnogaeth gan drigolion a busnesau lleol, ag mae gwaith yn byrlymu ymlaen yno.





# Cae Chwarae Llanbedrog





Mae Cae Chwarae Llanbedrog yn adnodd cymdeithasol allweddol i'r gymuned. Mae'n leoliad ar gyfer plant, phobl ifanc ac oedolion yr ardal i gymdeithasu a mwynhau eu hunain. Yn anffodus roedd cyflwr y cae chwarae wedi dirywio yn ofnadwy dros y blynyddoedd diwethaf ag roedd mewn cyflwr ddifrifol wael. Roedd y parc wedi mynd i edrych yn flêr ac nid oedd yr offer chwarae yno yn ddiogel i'w defnyddio. Gyda cymorth y Gronfa mae'r cae chwarae bellach wedi gweld gwelliannau enfawr. Fe aeth nawdd tuag at ddiogelu ffens y cae chwarae, gosod giât newydd, pyst pêl-droed â chwrt pêl-fasged. Rhan arall o'r cais oedd gosod byrddau dehongli a phlannu choed ffrwythau amrywiol yn ardal natur y parc.





# Monitro Cornchwiglen Morfa Dinlle

Mae Morfa Dinlle yn warchodfa RSPB a reolir ar gyfer y gornchwiglen fridio. Prynwyd y safle er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r gostyngiadau trychinebus yn niferoedd y gornchwiglen yng Nghymru sy'n bridio, a'u gwrthdroi (gostyngiad o 96% ers 1970). Ar ôl llwyddiant cychwynnol (dyma'r nythfa fwyaf yng Nghymru), mae'r boblogaeth fridio a'r nifer o gywion wedi dirywio. Roedd y prosiect yma yn adeiladu ar waith a wnaethpwyd y llynedd er mwyn llywio rheolaeth yn y dyfodol a gobeithio gwrthdroi'r tueddiadau hyn. Roedd y prosiect yn cynnwys:

- Cyflogi gweithiwr maes am fis i ymgymryd â monitro.
- Gwylio adar ysglyfaethus yn ystod y dydd i adnabod eu harferion a'r gwahanol rywogaethau.
- Adnabod adar ysgyfleuthus y nos gan ddefnyddio delweddwr thermol.
- Lleoli ac ymweld â nythod cornchwiglod (dan drwydded), defnyddio cofnodwyr data ac ailymweld i fonitro canlyniadau.
- Gosod tagiau ar gywion sydd newydd ddeor.





# Pecyn Addysg Tirweddau Dynodedig Cymru



Dros y tair blynedd diwethaf mae'r 8 Tirlun Dynodedig Cymreig (3 Parc Cenedlaethol a 5 AHNE) wedi bod yn gweithio ar brosiect i ddatblygu adnoddau dysgu dwyieithog sy'n gysylltiedig â Chwricwlwm i Gymru o dan faner Tirlun **(www.tirlun.cymru)**

Mae gwybodaeth a gweithgareddau penodol i bob ardal yn cynnwys AHNE Llŷn ar y wefan yma.

Gyda chefnogaeth cronfa Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, mae'r adnodd unigryw hwn yn darparu deunyddiau dysgu helaeth a chynnwys cysylltiedig i ysgolion sy'n canolbwyntio ar yr 8 Tirwedd Dynodedig tra'n ymdrin ag amrywiaeth o bynciau a dulliau dysgu, y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Mae adnoddau Tirlun ar gael i bob athro a disgybl yng Nghymru, trwy wefan bwrpasol a thrwy Hwb – platfform dysgu digidol Cymru gyfan.

Graham Peake o Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro oedd arweinydd y prosiect ac meddai:

"Mae Tirlun yn llawn dop o weithgareddau cyffrous a chyflwyniadau rhyngweithiol, y gobeithiwn y byddant yn cyfoethogi teithiau dysgu awyr agored llawer o blant ledled Cymru."

"Mae Parciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol Cymru gyda'i gilydd yn gorchuddio mwy nag 20% o dir Cymru ac felly dylem roi'r cyfle i ddysgwyr archwilio'r ardaloedd hyn. Bydd yr amrywiaeth o weithgareddau sydd wedi'u cynnwys hefyd yn galluogi plant i ddysgu mwy am yr amgylchedd a'r ardal lle maent yn byw, gan gynnwys tiroedd ysgol."


















# Lle yn Llŷn

Dyma gyfle i chi ymuno mewn cystadleuaeth arbennig, drwy adnabod rhai o leoliadau'r ardal.
Allwch chi enwi y chwe lleoliad yn y lluniau isod tybed?
Gyrrwch yr atebion i ni dros e-bost yn cynnwys eich manylion cyswllt.
Dyma'r cyfeiriad: **ahne@gwynedd.llyw.cymru**

**Dyddiad Cau – Awst 31ain**

Bydd un enillydd - i'w ddewis ar hap

## GWOBR

**Mordaith i ddau i Ynys Enlli**

